

Cyngor Cymuned Betws-y-Coed  
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 9fed Orffennaf 2018

Presennol - Gwawr Jones Cadeirydd, Marion Bettenev, Siân Godbert, Terry Bullock, Nick Corney, Cyng Elizabeth Roberts, Caerwyn Roberts, Clerc.  
Ymddiheuriadau -- Gareth Wynne, Janet Charlton, Marion Bettenev.

Datgan diddordeb – Dim datganiad

Cofnodion

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod y 14eg Fehefin 2018

Materion yn codi

(1)Yr Heddlu

Nid oedd yr Heddlu'n bresennol

[1.1] Ffordd yn Arwain i fyny heibio Moduron Betws/Arwydd fod y Ffordd yn Anaddas i loriau  
Nodwyd bod y mater yn parhau

[1.2] Materion Traffig Pont-y-Pair/Ffordd Coed Cynhelir

[a] Penderfynwyd cyfrannu £1300 ynghyd a £281.00 cynhaliaeth flynyddol tuag at gostau camera cylch agos o'r newydd i gadw llygad ar ddigwyddiadau ar Pont-y-Pair.

[b]Astudiaeth dichonoldeb Pont-y-Pair - Yn dilyn cyfarfod gyda Chyngor BS Conwy, esboniodd y Cyng Elizabeth Roberts bod y Cyngor Sir yn argymhell i'r Cyngor Cymuned ymgymryd astudiaeth dichonoldeb i adrodd yn ôl ar faterion traffig a diogelwch cerddwyr ayb. Y gost yn debygol o fod tua £2,000.00.

Penderfynwyd cyfrannu £2,000.00 tuag at y gost. Cytunodd y Cyng E Roberts i wneud y trefniadau.

Y brif Agenda

[1.3] Materion Cynllunio

[a] Codi mast ayb Garth y Pigau, Nant y Rhiw, Llanrwst

[b] Tynnu lawr y porth car presennol ac adeiladu garej ayb. Bod Afon, Betws-y-Coed.

[c] Dymchwel garej bresennol ac adeiladu anecs ayb. Glenwood, Betws-y-Coed.

Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r tri cais uchod.

[1.4] Mr Michael Hatch, Bryn Afon, Betws-y-Coed

Bu i Mr Hatch fynychu'r cyfarfod ac amlinellodd ei bryderon ynglŷn â digwyddiadau [neidio i'r afon] o Bont-y-Pair . Nid oedd dim yn cael ei wneud i atal yr arferiad meddai sydd yn cael effaith negyddol ar ei fusnes gwely a brecwast.

Mewn atebiad i fater a godwyd gan Mr Hatch, cadarnhaodd y Cyng E Roberts nad oedd cais cynllunio wedi ei wneud ar gyfer y bont, ond bod astudiaeth dichonoldeb yn cael ei baratoi, gyda'r canlyniadau ar argymhellion i gael ei cyflwyno ym mis Medi.

[1.5] Materion Ariannol

[a] Cymeradwywyd y taliadau ar derbyniadau [a ddsbarthwyd] a wnaed yn ystod mis Mehefin 2018

[b] Y Rhaeadr Ewynnol - Nodwyd y ffigyrau [a ddsbarthwyd] ar gyfer cyfnodau cymharol i ddiwedd Mehefin 2018.

[1.6] Carthion yn Rhedeg i'r Afon Llugwy

Croesawyd Mr Ifan Jones i'r cyfarfod a chyfeiriodd at y digwyddiad o garthion yn rhedeg i'r afon yn ddiweddar. Eglurodd bod y mater wedi cael sylw prydlon gan Gyfoeth Naturiol Cymru a hefyd Dwr Cymru a bod y broblem wedi ei ddatrys yn ddi-oed. Cadarnhaodd fod gwelliannau gyda chost o £150.000 wedi eu cwblhau ers 2012, a hefyd bod trefniadau i arddangos rhif ffôn galwad brys rhag ofn digwyddiad yn y dyfodol.

[1.7] Nosweithiau Cynghorau Tref a Chymuned gyda APCE

Cytunodd y Cyng Nick Corney I gynrychioli'r Cyngor ym Mhlas y Brenin ar yr 8fed Hydref 2018 am 6.30 yh.

[1.8] Clwb Peldroed Betws-y-Coed

Penderfynwyd cytuno gyda chais gan y clwb peldroed i osod baneri ar y ffens tu ol i'r gôl isaf, tra mae gemau peldroed yn cael ei chwarae.

Penderfynwyd hefyd i wneud cyfraniad o £100.00

[1.9] Siop Climber & Rambler Ffordd Caergybi

Eglurodd y clerc iddo anfon llythyr at gwmni Millets ynglŷn a'r golwg druenus sydd ar wyneb y siop, ond yn siomedig nid oedd ateb wedi ei dderbyn. Penderfynwyd anfon y mater ymlaen i APCE.

[2] Materion Amrywiol

Y clerc i ddilyn ymlaen ar materion isod.

[a] Polion concrete wedi malu yng Nghae Chwarae Ysgol Betws-y-Coed

[b] Canghennau yn cuddio'r goleuadau traffig wrth y groesfan gyferbyn a Londis.

[c] Caeadau manholes gyferbyn a Cunningham's a 3 Gables heb gael sylw.

Cadeirydd \_\_\_\_\_